

## DATHILU'R PASG

### Darganfod Brenin ar Groes

Ar Ddydd Gwener y Groglith gwelodd y dyrfa dri gŵr dolurus yn hongian ar groesbren. Roedd ddau ohonynt yn ddiamau yn ddrwgweithredwyr. Ond uwchlaw pen y trydydd rhoddwyd arysgrif yn datgan mai ef oedd Brenin yr Iddewon. Y tro hwn y **Parch Dafydd Rees Roberts** sydd yn ein harwain i ddarganfod brenin ar groes.

Yn nyddiau Iesu, a chenedl Israel o dan sawdl Rhufain, roedd disgwyliadau Meseianaid amlwg. Disgwyl Brenin o linach Dafydd i goncro'r gelynyon a sefydlu teyrnas newydd o dan Arglwyddiaeth Duw. Ar gychwyn gweinidogaeth Iesu roedd yn naturiol i lawer ddisgwyl mai ef oedd y Meseia hwnnw fyddai'n gwaredu ei genedl, yn arbennig ac yntau wedi cyhoeddi bod "Teyrnas Dduw yn agos".

Ond bob yn araf bach cafodd llawer eu dadrithio, hyd yn oed rhai dilynwyd, oherwydd fe soniodd fwy am gariad nac am ryfel, am droi'r foch arall yn hytrach na tharo'n ôl, a mynd cyn belled â maddau i elynion a thalu treth i Gesar.

Nid Brenin tebyg i ddisgwyliadau'r bobl a'u harweinyddion oedd Iesu.

Roedd ei frwydr ef yn erbyn pechod, drygioni, anghyfiawnder, gwaeledd, a'r gelyn pennaf angau; a thrwy lawer o wyrthiau datguddiodd ei allu a bwriad Duw ar ei gyfer. Ni fynodd statws ac anrhydedd, cafodd ei eni yn llety anifeiliaid, ei fagu ar aelwyd gyffredin mewn pentref di-nod. Daeth meddai, "nid i gael ei wasanaethu, ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer". Marchogodd ar gefn asyn i gyflawni ei orchwyl olaf a phwysicaf, sef marw dros bechodau'r byd. Brenin oedd yn barod i ddiodeff a marw er gwaethaf ei wewyr ac a ddywedodd, "nid yr hyn a fynaf i, ond yr hyn a fynni Di".

Yr oedd yn Frenin rhy wahanol i lawer ddal i greu ynddo. Ciliodd y torfeydd a chadarnhawyd amheuan a rhagfarnau'r arweinwyr crefyddol. 'Roeddynt wedi ei wrthwynebu o'r dechrau, gan ei gyhuddo o gabledd a mynd yn groes i'w harferion a'u traddodiadau crefyddol.

Roedd wedi eu cynddeiriogi a rhaid byddai cael gwared ohono.



*O ganol dydd, daeth tywyllwch dros yr holl wlad hyd dri o'r gloch y prynhawn. A thua thri o'r gloch gwaeddodd Iesu â llef uchel, "Eli, Eli, lema sabachthani", hynny yw, "Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael?" O glywed hyn, meddai rhai o'r sawl oedd yn sefyll yno, "Y mae hwn yn galw ar Elias." Ac ar unwaith fe redodd un ohonynt a chymryd ysbwng a'i lenwi â gwin sur a'i ddodi ar flaen gwialen a'i gynnig iddo i'w yfed. Ond yr oedd y lleill yn dweud, "Gadewch inni weld a ddaw Elias i'w achub." Gwaeddodd Iesu drachefn â llef uchel, a bu farw. A dyma len y deml yn cael ei rhwygo yn ddwy o'r pen i'r gwaelod. Siglwyd y ddaear a holltwyd y creigiau;*

Mathew 27:45 ymlaen

Roedd y llwybr yr oedd Iesu arno fel Gwaredwr yn gwrthdaro â holl agwedd yr arweinyddion crefyddol a daeth y Groes yn anochel. Trwy gynllwynion a thystiolaeth gau-dystion pwysodd yr arweinyddion ar y Llywodraethwr Rhufeinig i ganiatáu ei groeshoelio er na welai hwnnw unrhyw fai ynddo. Ac am naw o'r gloch y bore dyrchafwyd Y Brenin gan ddynion, nid i'w orseddu mewn gogoniant, ond i'w ddryllio, ei sarháu a'i ladd ar groesbren. Cosb y troseddwyd gwaethaf oedd croeshoelio, ac Iesu, Y Meseia, Y Brenin, yn diodeff y fath farwolaeth dros bechodau'r byd. Yng ngeiriau Pedr yn ddiweddarach (1 Pedr 3:18) "y cyfiawn dros yr anghyfiawn, i'ch dwyn chwi at Dduw". Ond ar y pryd ni welai Pedr na'r dilynwyd eraill fod yr un toredig, diodeffus yn unrhyw fath o Frenin.

Wrth y Groes ysgydwai rai eu pennau mewn penbleth, wylai eraill mewn anobaith. Roedd y milwyr yn hapchwarae, a'r arweinyddion crefyddol yn gwawdio Iesu, gan gofio yn hunangyfiawn bod Deuteronomium yn dweud, "mae un a grogwyd ar bren dan fellti Duw". Roedd y Groes yn dweud "methiant", felly sut allai Iesu fod yn Frenin?

Ond dechreuodd Iesu lefaru, gan bledio ar ei Dad Nefol dros ei ddienyddwyr, "O Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant pa beth y maent yn ei wneud". (Luc 23:34).

Ymatebodd Iesu hefyd i gais edifeiriol un o'r drwgweithredwyr a groeshoeliwyd gydag ef ag addo "Heddiw byddi gyda mi ym mharadwys". (Luc 23:43).

Yng ngwewyr ei boenau gwelodd y troseddwr edifeiriol pwy oedd Iesu. Credodd y Canwriad hefyd, gan ddweud, "Yn wir Mab Duw oedd y dyn hwn".